# Manyleb y Swydd a'r Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol** |
| **Cyfeirnod:** | **MBS-033-24** |
| **Aelod o'r Senedd:** | **Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig** |
| **Band Tâl:** | **1** |
| **Ystod Cyflog: (pro rata)** | **£30,520 - £42,811**<br>*Mae disgwyl i'r holl staff newydd ddechrau ar isafswm graddfa'r band cyflog priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band.* |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Natur y penodiad:** | **Dros dro, gydag opsiwn i'w gwneud yn barhaol** |
| **Lleoliad:** | **Tŷ Hywel, Senedd Cymru, Caerdydd** |

## Diben y swydd

Gweithio fel rhan o'r tîm cyfathrebu i hyrwyddo Arweinydd ac Aelodau Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Senedd ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chynnig cyngor ymarferol i Aelodau unigol ar sut i wneud y mwyaf o'u presenoldeb ar-lein.

## Prif ddyletswyddau

1. Arwain ar ddarparu cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein rhagweithiol a diddorol i hyrwyddo gwaith Arweinydd ac Aelodau Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn Senedd Cymru.

2. Gwneud y mwyaf o'r defnydd o gyfryngau newydd, gan ddefnyddio'r ystod lawn o opsiynau sydd ar gael gan gynnwys fideos, graffeg, llwyfannau byw a blogiau, i ehangu cyrhaeddiad gwaith Ceidwadwyr Cymreig sy'n Aelodau o'r Senedd.

3. Cynllunio, datblygu chwblhau ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau ar-lein sy'n ymwneud â busnes y Senedd.

4. Trafod ag Aelodau o'r Senedd y Ceidwadwyr Cymreig a'u swyddfeydd i nodi unrhyw agweddau ar eu gwaith a allai fod o ddiddordeb ar y cyfryngau cymdeithasol.

5. Cynghori Aelodau o’r Senedd y Ceidwadwyr Cymreig ar arfer gorau o ran hyrwyddo eu gwaith yn y Senedd ar y cyfryngau cymdeithasol.

6. Ystyried a chynnal dealltwriaeth uwch o’r tueddiadau a’r offer diweddaraf ar y cyfryngau cymdeithasol a sut y gall y Grŵp ac Aelodau o’r Senedd y Ceidwadwyr Cymreig eu defnyddio.

7. Nodi, creu a chydlynu digwyddiadau sydd ar y gweill a allai o bosibl gynnig cyfleoedd o ran y cyfryngau cymdeithasol.

8. Nodi a chyflawni anghenion hyfforddi Aelodau o’r Senedd a’u swyddfeydd er mwyn gwneud defnydd llawn o’r cyfryngau cymdeithasol a’r cyfryngau ar-lein.

9. Cyflawni dyletswyddau eraill o'r fath ar gais Arweinydd y Grŵp/Rheolwr Llinell.

**Manyleb y Person (cyfeiriwch at y meini prawf 'hanfodol' isod wrth lenwi'r adran *‘Gwybodaeth i gefnogi eich cais’* ar y ffurflen gais.**

**Gwybodaeth a Phrofiad Hanfodol**

- Profiad o weithio’n effeithiol gan ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol a’r cyfryngau ar-lein, yn ddelfrydol mewn amgylchedd gwleidyddol neu amgylchedd tebyg.
- Profiad ymarferol y gellir ei ddangos, a dealltwriaeth o ddatblygu a gweithredu strategaethau cyfathrebu digidol ac o drefnu ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a’r cyfryngau ar-lein.
- Profiad o dwf organig o ddilynwyr a chyrhaeddiad ar gyfryngau cymdeithasol, gan ddangos dealltwriaeth o algorithmau cyfryngau cymdeithasol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau trin y cyfryngau digidol, yn arbennig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol prif ffrwd, gan gynnwys Facebook, Twitter, Instagram a Tiktok.
- Dealltwriaeth o’r angen i frwydro yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i’r materion hyn.

**Cymwysterau Hanfodol**

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol, neu
- gymhwyster ffurfiol, e.e. NVQ lefel 4 neu gymhwyster cyfatebol yn y cyfryngau neu ym maes cyfathrebu.

**Sgiliau ac Ymddygiadau Hanfodol**

- Tystiolaeth o weithio'n unol â therfynau amser tyn.
- Tystiolaeth o ddefnyddio apiau cyfryngau cymdeithasol mewn amgylchedd gwaith.
- Tystiolaeth o ysgrifennu, ffilmio a golygu fideos.
- Tystiolaeth o ddefnyddio'r opsiynau hysbysebu ar apiau cyfryngau cymdeithasol.
- Sgiliau trefnu, cynllunio a chyflwyno effeithiol gyda'r gallu i weithio'n hyblyg a mynd i'r afael ag ystod o dasgau.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl.
- Y gallu i achub y blaen, esgor ar syniadau a chyfathrebu eitemau newyddion yn effeithiol.
- Y gallu i ddangos sensitifrwydd, cyfrinachedd a dealltwriaeth o'r angen i adlewyrchu barn y Blaid mewn modd sy'n adlewyrchu cyfle cyfartal ac nad yw'n ymfflamychol, yn ansensitif, yn enllibus, yn athrodus neu'n ddifenwol.
- Dealltwriaeth o faterion cyfoes a materion sy'n berthnasol i Gymru.

**Dymunol**

- Yn arddel amcanion a gwerthoedd y blaid.

| **Gwybodaeth Ychwanegol** |
| --- |
| Er gwybodaeth, bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch.<br>**Os bydd yr Aelod o'r Senedd yn ymddiswyddo, neu'n colli ei sedd mewn etholiad, bydd y swydd hon yn dod i ben. O ran swyddi o fewn grŵp y blaid, os bydd Arweinydd y blaid yn newid, neu os bydd nifer Aelodau'r Grŵp yn newid, mae'n bosibl y daw'r swydd hon i ben.* |
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn: hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran. |